**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: CG/PO/70/2023

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

02 Mawrth 2023

Annwyl Huw

Diolch ichi am adroddiad diweddar y Pwyllgor ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24. Ar y cychwyn, hoffwn ailadrodd sylwadau yr wyf wedi'u gwneud o'r blaen a diolch i'r Pwyllgor am ei ddiddordeb yn ein gwaith o drefnu adnoddau ar gyfer gweithgarwch sy'n gysylltiedig â chyfiawnder. Mae'n bwysig ein bod yn gwerthfawrogi maint ein hymrwymiad i weithgarwch cyfiawnder, a gwariant arno, o dan y setliad datganoli presennol ac wrth inni fwrw ymlaen ag ymrwymiad ein Rhaglen Lywodraethu i fynd ar drywydd yr achos dros ddatganoli plismona a chyfiawnder.

Rwyf yn nodi sylwadau'r Pwyllgor fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad. Gan droi at yr argymhellion penodol rwyf wedi nodi fy ymateb fel a ganlyn:

***Argymhelliad 1**. **Dylai'r Cwnsler Cyffredinol ddarparu diweddariadau amserol inni ynghylch unrhyw gynnydd yn y galw ar i dribiwnlysoedd Cymru wrando ar achosion, ac o ganlyniad i hynny, unrhyw gynnydd yn ystod y flwyddyn i'r dyraniad i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Tribiwnlysoedd***

Fel y mae'r argymhelliad yn cydnabod, gwasanaeth sy'n cael ei arwain gan y galw yw Tribiwnlysoedd Cymru. Ym mhob un o'i adroddiadau blynyddol, mae Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru wedi adrodd ar nifer y ceisiadau a wneir i dribiwnlysoedd Cymru ac ar alldro'r gyllideb ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Llywydd wedi adrodd ar danwariant yn erbyn y gyllideb, yn bennaf o ganlyniad i symud at wrandawiadau o bell yn hytrach nag wyneb yn wyneb mewn ymateb i effaith pandemig Covid-19. Yn yr adroddiad blynyddol diweddaraf, a osodwyd gerbron y Senedd ar 31 Ionawr, mae'r Llywydd wedi tynnu sylw at y posibilrwydd o orwario ar y gyllideb wrth i rai gwrandawiadau wyneb yn wyneb ailddechrau, mater a drafodais gyda'r Llywydd yn ein cyfarfod ar 1 Chwefror.

Rwyf yn ymwybodol o'r egwyddor o annibyniaeth farnwrol, fel pob un ohonom, ac rwyf yn cydnabod yr angen i'r gwasanaeth tribiwnlysoedd gael adnoddau digonol i gyflawni ei swyddogaethau. Rydym fel Llywodraeth yn ystyried ac yn adolygu pwysau cyllidebol ac

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

mae hyn yr un mor gymwys i'r dyraniad cyllidebol ar gyfer y gwasanaeth tribiwnlysoedd ag i linellau gwariant eraill yn y gyllideb yn ein cyllideb ddrafft. Byddaf, wrth gwrs, yn rhoi unrhyw ddiweddariadau priodol i chi os bydd y sefyllfa'n datblygu ymhellach.

***Argymhelliad 2**. **Dylai'r Cwnsler Cyffredinol ddarparu manylion inni am yr adnoddau y mae'n rhagweld y bydd eu hangen i ddatblygu cynigion i ddiwygio tribiwnlysoedd Cymru.***

Mae llinell wariant yn y gyllideb "Trawsnewid Cyfiawnder" yn cefnogi ein rhaglen trawsnewid cyfiawnder ac yn rhoi adnoddau i'r gwaith paratoi sydd ar y gweill ar hyn o bryd i fwrw ymlaen â'r prosiect diwygio tribiwnlysoedd. Fel y nodais yn fy llythyr dyddiedig 1 Mawrth, mewn ymateb i'ch llythyr chithau dyddiedig 3 Chwefror, mae amseru'r ddeddfwriaeth y mae ei hangen i roi effaith i ddiwygio a rhoi adnoddau i'r gwaith hwnnw yn destun prosesau ar wahân ar gyfer datblygu ein Rhaglen Ddeddfwriaethol. Yn ôl yr arfer, bydd asesiadau effaith, sy'n nodi'r goblygiadau a ragwelir o ran adnoddau, yn cyd-fynd â'n cynigion ar gyfer deddfwriaeth.

***Argymhelliad 3. Os daw Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) yn gyfraith, dylai'r Cwnsler Cyffredinol adrodd i ni ar asesiad Llywodraeth Cymru o effaith y Bil ar ei hadnoddau o fewn mis i'w basio, ac yn fisol wedi hynny.***

Os caiff Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) ("y Bil") ei basio, ac yn cael y Cydsyniad Brenhinol, byddaf yn darparu asesiad cychwynnol o effaith y ddeddfwriaeth ar adnoddau Llywodraeth Cymru, cyn gynted ag y bydd modd gwneud hynny ar ôl i'r Bil ddod yn gyfraith tra'n nodi mai dim ond un rhan o'r stori yw'r Bil. Y flaenoriaeth fydd sicrhau ein bod yn cadw'r risg y bydd amddiffyniadau cyfreithiol pwysig yn syrthio oddi ar y llyfr statud ar ddiwedd eleni i'r lleiaf posibl. Er hynny, bydd yr effaith yn ddibynnol iawn ar ddeall yr ymagweddau sy'n cael eu harddel mewn rhannau eraill o'r DU ac yn benodol, benderfyniadau gan Weinidogion Llywodraeth y DU i gadw neu ddiwygio offerynnau unigol. Lle mae newidiadau i'r status quo yn cael eu hystyried y tu allan i Gymru, bydd yn bwysig deall i'r graddau posibl goblygiadau naill ai cyd-fynd â safbwyntiau sy'n cael eu harddel mewn mannau eraill, neu wyro oddi wrthynt. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd ar y mater hwn pan ddaw rhagor o wybodaeth i law.

***Argymhelliad 4. Dylai'r Cwnsler Cyffredinol, erbyn diwedd mis Mawrth, ddarparu dadansoddiad ynghylch pa un a yw'r costau staffio ychwanegol a ragwelwyd i Lywodraeth Cymru sydd wedi'u nodi yn y Memorandwm Esboniadol i'r Bil Deddfwriaeth (Cymru) yn gywir.***

Yn y gorffennol mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i nodi manylion goblygiadau adnoddau ac ariannol cyflawni'r rhaglen gyntaf sy'n anelu at wella hygyrchedd cyfraith Cymru, a chostau eraill sy'n deillio o weithredu Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 ("Deddf 2019"). Rhoddwyd yr ymrwymiad hwn mewn ymateb i argymhellion a wnaed gan Bumed Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Senedd a'r Pwyllgor Cyllid, yn dilyn eu gwaith craffu Cyfnod 1 ar Fil Deddfwriaeth (Cymru). Cytunodd y Llywodraeth i gynnwys y manylion hyn yn yr adroddiad blynyddol o dan adran 2(7) o Ddeddf 2019 a fyddai'n cael ei wneud yn 2023. Byddaf, felly, yn darparu'r wybodaeth hon yn yr adroddiad a ddisgwylir yn ddiweddarach eleni.

Yn gywir

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution